Yr Heddlu Sifil Niwclear

Adroddiad Monitro Cynllun yr Iaith Gymraeg

Mawrth 2010

Cynnwys

Cyflwyniad 3

Llwyddiannau yn 2009 – 10 4

Sialensau ar gyfer 2010 – 11 4

Cyfieithu ar-y-pryd o'r Gymraeg mewn Cyfarfodydd Cyhoeddus 5

Gohebiaeth Gymraeg 6

Deunyddiau a Gyhoeddir yn y Gymraeg 6

Polisïau a Mentrau'r Iaith Gymraeg 7

Hyfforddiant yn y Gymraeg yn Uned Wylfa 7

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg 7

Gwefan Recriwtio/ Yrfaoedd yr Heddlu Sifil Niwclear 7

Cwynion ac Awgrymiadau mewn perthynas â'r Heddlu 8

Penodi Asiantaeth Gyfieithu i'r Gymraeg Gydnabyddedig 8

Cyflwyniad

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Hwn oedd cynllun cyntaf yr Awdurdod Heddlu ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 ain Mawrth 2008.

Ers hynny, bu'r Heddlu Sifil Niwclear yn llwyddiannus yn rhoi ei Gynllun Gweithredu ar waith dros yr Awdurdod Heddlu fel y cytunwyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Sefydlwyd yr Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear a'r Heddlu Sifil Niwclear (a gaiff ei adnabod fel Yr Heddlu o hyn ymlaen) ar 1 Ebrill 2004 yn unol â chyfarwyddyd y Ddeddf Ynni 2004. Mae'r sefydliad yn gweithredu o dan gyfarwyddyd strategol Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (sef DECC yn y byrfoddau Saesneg).

Swyddogaeth yr Awdurdod Heddlu yw sicrhau bod Yr Heddlu yn effeithlon ac effeithiol ac yn cyfarfod â gofynion plismona budd-ddeiliaid yn y diwydiant niwclear yn unol â'r cyfeiriad strategol a osodwyd gan yr Awdurdod Heddlu. Caiff amcanion a thargedau perfformiad ar gyfer Yr Heddlu eu cytuno rhwng Y Prif Gwnstabl a'r Awdurdod Heddlu ac yna cânt eu cyhoeddi fel rhan o'r *Cynllun Strategaeth Tair Blynedd* (ar gael ar www.cnps.police.uk ac ar www.cnc.police.uk). Bydd fersiwn Gymraeg yn cael ei chyhoeddi'n fuan.

Un o amcanion allweddol yr Awdurdod Heddlu yw gwirio effeithiolrwydd parhaus yng ngweithrediadau'r Heddlu yn unol â'r safonau diogelwch a osodir gan y Cyfarwyddwr Diogelwch Sifil Niwclear. Mae'r Awdurdod yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheolaeth strategol gref ac atebolrwydd I'r Ysgrifennydd Gwladol ac mae hefyd yn gyfrifol am fod yn gynyddol agored a thryloyw am weithredoedd yr Awdurdod Heddlu a'r Heddlu.

Mae'r Heddlu yn wasanaeth heddlu arfog arbenigol sy'n llwyr ymroddedig I'r diwydiant sifil niwclear gydag Unedau Gweithredu Plismona wedi eu lleoli mewn 15 safle sifil niwclear yn Lloegr, yr Alban a Chymru ac mae yna'n agos i 1,000 o swyddogion yr heddlu a staff yn gweithio iddo. Pencadlys yr Heddlu yw Culham yn Sir Rhydychen. Mae'r diwydiant sifil niwclear yn ffurfio rhan o is-adeiledd cenedlaethol hanfodol y DU ac mae swyddogaeth yr Heddlu yn cyfrannu at y fframwaith diogelwch cenedlaethol yn ei chyfanrwydd.

Diben yr Heddlu yw amddiffyn safleoedd sifil niwclear trwyddedig a diogelu deunydd niwclear sy'n cael ei gludo o le i le. Gweithia'r Heddlu mewn partneriaeth gyda'r Swyddfa Gartref briodol neu gyda heddlu'r Alban ym mhob safle. Mae'r gwasanaethau plismona y mae eu hangen ym mhob safle yn cael eu cytuno gyda rhai sy'n gweithredu yn y maes niwclear yn unol â Rheoliadau Diogelwch Diwydiannau Niwclear 2003 (byrfodd Saesneg NSR) a'u dilysu gan reoleiddiwr y DU, y Swyddfa ar gyfer Diogelwch Sifil Niwclear (byrfodd Saesneg OCNS). I gydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelwch Niwclear, rhaid wrth wasanaethau plismona arfog yn y rhan fwyaf o safleoedd sifil niwclear yn y Deyrnas Unedig. Mae'r mwyafrif o swyddogion yr Heddlu yn Swyddogion Arfog Awdurdodedig. (AFOs yn y Saesneg).

Mae Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod Heddlu yn berthnasol i'r unig leoliad sydd gan y sefydliad yng Nghymru, sef Uned Wylfa ar Ynys Môn. Mae gwaith Yr Heddlu yn canolbwyntio ar weithdrefnau gweithredol yn yr Uned ac yn ymgorffori Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru. Mae Uned Wylfa yn cynnwys Swyddogion yr Heddlu ond gan nad yw'r cyhoedd yn cael gwybod am y nifer penodol a leolir yno na manylion gweithrediadau ar lefel uned, nid oes unrhyw fanylion pellach am weithredu dydd i ddydd Wylfa yn y cyhoeddiad hwn.

Mae gwaith perthnasol i Gynllun Awdurdod yr Heddlu yn berthnasol i gynnal busnes cyhoeddus yng Ngyhymru. Mae ffin y busnes sy'n cael ei ddisgrifio yn y cyhoeddiad hwn yn gorwedd rhwng ymagweddiad corfforaethol ac un lleol.

Llwyddiannau yn 2009 – 10

- E-bost: Pob e-bost yn perthyn i Swyddogion Wylfa yn awr yn diweddu gydag arwyddiant dwyieithog
- Mewnrwyd: mae modd i bob Swyddog yr Heddlu a Staff gael mynediad yn awr i gefndir Cynllun yr Iaith Gymraeg
- Datblygu gwefan: mae prif wefan yr Heddlu a gwefan Recriwtio Heddlu yn cynnwys tudalennau dwyieithog perthnasol i Uned Wylfa a Chynllun yr Iaith Gymraeg
- Sioe Môn: llwyddodd yr Heddlu i roi hwb cadarnhaol i'w swyddogaeth o fewn y gymuned leol a'i ymrwymiad i'r iaith Gymraeg trwy fod yn y Sioe
- Canfod hyfforddwr: canfuwyd hyfforddwr lleol yn y Gymraeg i gyflwyno hyfforddiant ynddi trwy gydol 2010 -11

Sialensau ar gyfer 2010 – 11

- Cyfarfod Cyhoeddus: mae'r Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear yn bwriadu cynnal cyfarfod cyhoeddus yng Nghymru am y tro cyntaf ym Medi 2010
- Adroddiad Blynyddol: am y tro cyntaf caiff crynodeb gweithredol o *Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear* ei gynhyrchu yn y Gymraeg
- Cardiau Gwarant: caiff cardiau gwarant ar gyfer holl Swyddogion Wylfa eu hailgynhyrchu'n ddwyieithog
- Hyfforddiant yn y Gymraeg: caiff 75% o Swyddogion Wylfa, yn ogystal â nifer o Swyddogion a Staff ar draws yr Heddlu, eu hyfforddi yn y Gymraeg i lefel 1. Ymrwymwyd ymhellach i hyfforddi rhai sydd eisioes wedi cyrraedd safon lefel 1 i safon lefel 2.
- Diweddaru deunyddiau cyhoeddus: caiff deunyddiau cyhoeddus allweddol eu hadolygu a'u diweddaru fel y bo'n briodol ar ffurf ddwyieithog

Cyfieithu ar-y-pryd o'r Gymraeg mewn Cyfarfodydd Cyhoeddus

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Hyd yma, nid yw Uned Wylfa wedi cynnal unrhyw gyfarfodydd y gwahoddwyd aelodau o'r cyhoedd neu gyrff sy'n cynrychioli'r cyhoedd iddynt.

Mae cynrychiolwyr dwyieithog Cymraeg/Saesneg yr Heddlu wedi mynychu cyfarfodydd safle yn cael eu trefnu gan Magnox lle oedd y cyrff cyhoeddus canlynol hefyd yn bresennol:

- Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
- Yr Arolygaeth Safleoedd Niwclear
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Awdurdodau Iechyd Cenedlaethol a Lleol
- Cynghorydd Tref
- Cynghorwyr Sir a Chymuned
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd

Mae Magnox yn darparu cyfieithwyr ar-y-pryd yn y cyfarfodydd hynny.

Mae gan Swyddogion Heddlu a fynychodd y cyfarfodydd uchod gardiau busnes dwyieithog yr Heddlu i'w rhannu os oes angen.

Os digwydd bod gan yr Heddlu angen penodol am gyfieithydd ar-y-pryd ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus, mae gan yr Heddlu fynediad at gyfieithwyr o'r fath trwy naill ai Adran Gyfathrebu Magnox neu Heddlu Gogledd Cymru.

Sioe Môn

Mynychodd yr Heddlu Sioe Môn yn Awst 2009 a darpau pedwar diwrnod o ymrwymiad i'r sioe. Yr oedd mentrau'n cynnwys:

- Baneri dwyieithog
- Byrddau arddangos dwyieithog
- Deunyddiau gwybodaeth ar gyfer plant ysgol yn y Saesneg a'r Gymraeg
- Pedwar model y gallai'r plant eu gwisgo yn iwnifform ddwyieithog yr Heddlu
- Cerbyd cyfathrebu'r llu gydag arwyddion dwyieithog

Mynychodd Swyddogion Dwyieithog yr Heddlu y sioe, ac yr oedd teimlad bod man arddangos yr Heddlu wedi cael derbyniad da gan y cyhoedd. Cafodd erthygl yn sôn am yr Heddlu ei chynnwys yn *Wyl-Power*, sef cylchgrawn staff safle Wylfa Magnox.

Mae'r Heddlu wedi ymrwymo i fynychu Sioe Môn eto yn y dyfodol, gan edrych ar y sioe fel cyfle rhagorol i gymysgu gydag aelodau o'r cyhoedd ac i hybu'r Heddlu'n gadarnhaol trwy'r gymuned leol.

Gohebiaeth Gymraeg

Yn ôl amcangyfrif, mae ar draws hanner cant o eitemau gohebiaeth yn cael eu derbyn bob chwarter gan Uned Wylfa. Mae'r rhan fwyaf o ohebiaeth yn y Gymraeg yn cael ei hanfon gan Heddlu Gogledd Cymru neu Fwrdd yr Iaith Gymraeg a chaiff ei hanfon yn ddwyieithog trwy e-bost i Uned Wylfa.

Ar hyn o bryd, mae Uned Wylfa yn parhau i gyfathrebu'n fewnol ac yn allanol trwy gyfrwng y Saesneg. Mae hyn am nad oes digon o Swyddogion yn Uned Wylfa yn hollol rugl yn eu Cymraeg ysgrifenedig, gan mai Saesneg yw iaith gyntaf yr Uned. Fodd bynnag, fel menter newydd ar gyfer 2009 -10, mae pob e-bost gan Swyddogion Wylfa yn gorffen gydag arwyddiant dwyieithog.

Deunyddiau a Gyhoeddir yn y Gymraeg

Deunydd Comisiwn Annibynnol Cwynion am yr Heddlu

Mae taflenni'r Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC yn Saesneg) ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae gwybodaeth ddwyieithog hefyd ar gael ar wefan y Comisiwn (IPCC). Pe bai aelod o'r cyhoedd angen cwyno am Swyddog o'r Heddlu, mae angen iddo ef neu hi edrych ar y llyfrynnau hyn ac wedyn mae modd dewis ffurflen Gymraeg neu Saesneg wrth wneud cwyn. Hyd yma, ni wnaed unrhyw gwyn yn erbyn Uned Wylfa.

Llyfrau Datganiad Stopio ac Adrodd

Mae pob Swyddog yn Wylfa wedi cael ffurflenni unigol stopio ac adrodd a ffurflenni MG11 (Datganiad) yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn weithredol o Awst 2008. Pe bai aelod o'r cyhoedd yn cael ei stopio a datganiad yn cael ei gymryd, mae gan yr unigolyn gyfle i ddewis pa ffurflen i'w llenwi a dewis cwblhau'r ffurflen naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Gwefannau yr Heddlu Sifil Niwclear

Bu cynnydd arwyddocaol ym maint y defnydd o Gynllun yr Iaith Gymraeg ar wefan newydd yr Heddlu. Mae gwybodaeth am y Cynllun ac am yr Heddlu ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mewnrwyd yr Heddlu Sifil Niwclear

Mae gan Staff a Swyddogion fynediad at fwy o wybodaeth nag erioed o'r blaen am ymateb yr Heddlu i Gynllun yr Iaith Gymraeg gyda chynnydd yn y wybodaeth benodol am hyn.

Polisïau a Mentrau'r Iaith Gymraeg

Iwnifform Ddwyieithog

Mae pob Swyddog yn Uned Wylfa yn awr wedi cael iwnifform ddwyieithog yn cynnwys cap, siacedi llachar, gweladwy, siwperi fflîs a bathodynnau deunydd y gellir eu gwnïo ar unrhyw ddilledyn arall o iwnifform yr Heddlu.

Arwyddion Heddlu Cymraeg/Saesneg

Un o'r mentrau cyntaf a gwblhawyd gan yr Heddlu oedd newid yr arwyddion ar gerbydau'r Heddlu i "Police/ Heddlu". Cafodd hyn ei wneud yn gyflym iawn, oherwydd bod cerbydau'r heddlu yn weladwy iawn yn y gymuned leol. Mae cerbydau newydd a brynwyd yn 2009 -10 wedi cael arwyddion dwyieithog.

Codwyd arwyddion dwyieithog "Police/ Heddlu" y tu allan a'r tu mewn yn Safle Wylfa yn lle'r arwyddion Saesneg unieithog "Police".

Hyfforddiant yn y Gymraeg yn Uned Wylfa

Cwrs Iaith C1

Mae pob swyddog yn Uned Wylfa wedi cael cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg, naill ai trwy fynychu Cwrs iaith C1 neu trwy gwrs Hunan Asesu Iaith Gymraeg.

Mae'r Heddlu wedi ymrwymo i ddarparu Hyfforddiant Cymraeg i Swyddogion Wylfa. Mae'r Heddlu yn cydnabod mai'r Gymraeg yw'r iaith gyntaf mewn rhannau o Fôn, a bod y cyhoedd yn ymateb yn dda iawn i ymdrechion Swyddogion yn Uned Wylfa i gyfathrebu'n ddwyieithog. I gyfarfod â'r ymrwymiad hwn, mae'r Heddlu wedi neilltuo cyllideb ac wedi canfod hyfforddwr o Fôn i roi hyfforddiant lefel 1 a 2 yn 2010 -11. Er y bydd y ffocws pennaf ar Swyddogion yn Wylfa, caiff Staff a Swyddogion ar draws yr Heddlu eu gwahodd i gymryd rhan. Rydym yn rhagweld y bydd 75% o Swyddogion sy'n gweithio yn Wylfa wedi cwblhau hyfforddiant lefel 1 yn y Gymraeg erbyn diwedd 2010-11.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae'r Heddlu wedi derbyn pecyn hyfforddi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bwriad yr Heddlu yw defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu tudalennau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer ein mewnrwyd at ddefnydd gweithwyr newydd, Swyddogion Wylfa, ac unrhyw un sydd â diddordeb yn y Gymraeg.

Gwefan Recriwtio/ Yrfaoedd yr Heddlu Sifil Niwclear

Recriwtio

Yn ddiweddar, ni bu unrhyw ymgyrchoedd recriwtio yn targedu gweithwyr newydd ar gyfer Uned Wylfa'n benodol oherwydd bod gan yr uned ei chwota llawn o staff.

Os bydd angen gweithwyr newydd neu staff o blith y cyhoedd yn Uned Wylfa, bydd deunyddiau recriwtio ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gwefan Yrfaoedd yr Heddlu Sifil Niwclear

Lansiodd yr Heddlu wefan yrfaoedd newydd ar 23ain Rhagfyr 2009 ac mae hon yn ymgorffori'r cynllun Iaith Gymraeg trwy:

- Broffilio Swyddog yn Wylfa a gafodd ei gefnogi i astudio'r Gymraeg gan yr Heddlu, gyda'r proffil yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Proffilio Uned Wylfa a hybu lleoliad Wylfa yn y Gymraeg a'r Saesneg

Cwynion ac Awgrymiadau mewn perthynas â'r Heddlu

Hyd yma, nid oes unrhyw gwynion wedu cael eu derbyn am Uned Wylfa.

Fel y manylwyd uchod, mae darpariaeth ar gyfer y cyhoedd fel y gallant gwyno naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg trwy'r Comisiwn Cwynion (IPCC), gan ddefnyddio naill ai ffurflenni dwyieithog sydd ar gael trwy'r Uned neu trwy wefan yr IPCC.

Penodi Asiantaeth Gyfieithu i'r Gymraeg Gydnabyddedig

Mae'r Heddlu wedi sicrhau gwasanaeth cyfieithydd o Ynys Môn, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i gynorthwyo gydag agweddau dwyieithog Cymraeg/Saesneg gwefannau. Mae'r Heddlu yn bwriadau parhau gyda'r berthynas hon i gynorthwyo gyda chynlluniau yn y dyfodol i ddiweddaru deunyddiau cyhoeddus, gan gynnwys crynodeb gweithredol o *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear.*